**Cerddi Anhysbys**

Dydw i ddim, hyd yn oed, yn coelio fy hun.
Dim rhyfedd na fedra i dderbyn gair
neb arall. Rwy mewn rhyw strach o hyd.

Ddoe: rhoi'r gore i farddoni
Bore 'ma, wedyn, dyma fi
yn clywed rhywbeth, gorfod sgwennu:

gosod geiriau, fel dillad gwlyb
ar lein y frawddeg, er mwyn eu gwylio'n
chwifio'n y gwynt wrth iddyn nhw sychu.

*Gwyneth Lewis*